CDICRD04

Cefnogi unigolion i ganfod ac archwilio eu hanghenion a'u dyheadau datblygu gyrfa

Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr datblygu gyrfa.

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu sgiliau rheoli gyrfa unigolion, gan eu galluogi i ganfod a myfyrio ar y ffactorau sy'n eu symbylu, eu cryfderau, eu hanghenion, eu dyheadau, eu rhwydweithiau a'u nodau datblygu gyrfa.

Gallai hyn ddigwydd ar sail un i un neu mewn grwpiau, ac wyneb yn wyneb neu o hirbell.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cefnogi unigolion i ganfod eu disgwyliadau, eu cryfderau, eu hanghenion a'u dyheadau
2. cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n ymgysylltu ag unigolion ac yn cynnal eu symbyliad
3. rhoi digon o gyfle i unigolion gyfathrebu, myfyrio a dod i'w casgliadau eu hunain
4. defnyddio ymyriadau a dulliau dysgu a datblygu sy'n helpu unigolion i ganfod a datblygu eu sgiliau rheoli gyrfa
5. symbylu unigolion i oresgyn rhwystrau i gynnydd a chyflawniad
6. cytuno gydag unigolion ar y camau gweithredu y mae eu hangen yng nghyswllt eu hanghenion a'u dyheadau
7. cofnodi canlyniadau yn unol â gofynion y sefydliad
8. gweithredu mewn ffyrdd sy'n glynu at yr ymarfer moesegol sy'n ofynnol o fewn eich sefydliad neu eich proffesiwn
9. herio unrhyw ragfarn, defnydd o stereoteipiau, camwahaniaethu ac ymddygiad anfoesegol neu ormesol
10. annog ymreolaeth unigolion oddi mewn i'r broses datblygu gyrfa
11. hyrwyddo cynhwysedd, amrywiaeth a chyfle cyfartal
12. cynnal cyfrinachedd a diogeledd gwybodaeth unigol sy'n bodloni'r gofynion cyfreithiol a'r polisïau sefydliadol perthnasol
13. arddangos dealltwriaeth o ofynion cyfreithiol, gweithdrefnau lleol a'ch atebolrwydd eich hun o ran diogelu pobl ifanc ac oedolion agored i niwed

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal
2. sut gall y dylanwadau mewnol ac allanol ar unigolion effeithio ar sut maent yn datblygu sgiliau rheoli gyrfa
3. dulliau o brofi, cwestiynu ac annog myfyrio, er mwyn asesu cryfderau, anghenion a dyheadau unigolion
4. egwyddorion cyfathrebu effeithiol
5. cryfderau a gwendidau gwahanol ymyriadau, technegau a dulliau o gefnogi unigolion i ddatblygu sgiliau rheoli gyrfa effeithiol
6. sut mae sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau mewn ymyriadau, technegau a dulliau, a sut mae eu defnyddio gydag unigolion
7. y rhwystrau i ddatblygiad a chyflogaeth, sut mae eu hadnabod, a strategaethau i'w goresgyn
8. sut mae rheoli anghenion unigolion oddi mewn i derfynau'r gwasanaeth a gynigir
9. sut mae defnyddio a chofnodi canlyniadau ymyriadau, technegau a dulliau a ddewiswyd
10. egwyddorion moesegol a chodau ymarfer moesegol proffesiynol perthnasol, a chanlyniadau peidio â chadw atynt
11. sut mae annog unigolion i gymryd perchnogaeth ar y broses datblygu gyrfa
12. ffiniau a therfynau eich arbenigedd proffesiynol eich hun
13. ffiniau cyfrinachedd, pryd mae'n briodol datgelu gwybodaeth gyfrinachol i eraill a'r prosesau sy'n ofynnol
14. mesurau i ddiogelu pobl ifanc ac oedolion agored i niwed

CDICRD04

Cefnogi unigolion i ganfod ac archwilio eu hanghenion a'u dyheadau datblygu gyrfa

Datblygwyd gan	CDI
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Tachwedd 2014
Indicative Review Date	Chwefror 2016
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CDI
RCU gwreiddiol	CDICRD04
Galwedigaethau perthnasol	Addysg a hyfforddiant; Galwedigaethau Proffesiynol; gweithwyr llinell gymorth; Rheolwyr ac arweinwyr sydd â chyfrifoldeb am rhyngasiantaethol; Addysgwyr Proffesiynol; Galwedigaethau Gwasanaethau Cwsmeriaid; Gweithwyr Ymchwil Proffesiynol; Hyfforddwr Tywys Gweithredol; Hyffordiant a chysylltiadau diwydiannol; Mentor Dysgu; Rheolwyr personel; Rheolwyr Swyddogaethol; Staff Adnoddau Dynol; Ymgynghorwyr Gyrfaoedd ac Arbenigwyr Cyfarwyddyd Galwedigaethol
Cyfres/Set	Datblygu Gyrfa
Geiriau Allweddol	cyngor, dyhead, gyrfa, client-ganolog, datblygiad, addysg, cyflogaeth, cydraddoldeb, moesegol, nodau, grp, unigolyn, gwybodaeth, marchnad lafur, dysgu, symbyliad, anghenion, rhwydweithio, amcan, partneriaeth, cynllunio, ymarfer, atgyfeirio, myfyrio